**Cer amdani**



# CENHINEN BEDR BAPUR

**Dyma syniad ar gyfer creu Cenhinen Bedr syml. Bydd posib i ti ei addurno unwaith mae'r siâp yn ie le.**

Byddi di angen:

- Papur melyn
- Papur gwyrdd, ffon neu bensil werdd ar gyfer y goes.
- Pin sy'n hollti (split pin)
- Siswrn
- Pren mesur



**1**

Yn gyntaf mae angen darn sgwâr o bapur melyn. Mae'r Cliciadur wedi torri darn sgwâr allan o bapur maint A4. Mae'r ochrau yn mesur tua 21cm felly.

Nesaf, plyga y papur o gornel i gornel gan greu siâp X ar y papur, felly byddi angen plygu ddwywaith.



**2**

Wedyn mae angen torri o'r gornel tuag at y canol ar hyd y plyg. Paid a mynd yr holl ffordd i'r canol, mae tua 9cm yn ddigon. Mae angen gwneud hyn bedair gwaith o'r bedair cornel.



**3**

Y cam nesaf yw plygu bob yn ail cornel i fewn tuag at y canol. (Mae'n syniad defnyddio glud i gadw bob darn yn ei le, neu gofyn am help gan ffrind ar gyfer y darn yma.) Wedyn gwthia'r pin drwy'r holl ddarnau i'w cadw at ei gilydd.



**4**

Mae'n bosib creu darn canol i'r Cenhinen Bedr gyda chylch o bapur oren neu mae posib rhoi gleiniau (beads) neu fotwm yno.



**5**

Y cam olaf yw rhoi coesyn ar dy Genhinen Bedr. Gelli rolio darn o bapur gwyrdd neu ddefnyddio ffon neu bensil lliw gwyrdd. Yna gelli gludo'r goes i gefn dy Genhinen Bedr.